## HYSBYSIAD O GAFFAEL GORFODOL O DAN ADRAN 134(7) O DDEDDF CYNLLUNIO 2008

## MONA OFFSHORE WIND LIMITED – GORCHYMYN FFERM WYNT ALLTRAETH MONA 2025

## HYSBYSIAD AM AWDURDODI CAFFAEL GORFODOL

Mae'r Gorchymyn uchod, a wnaed o dan Ddeddf Cynllunio 2008 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net ac a gyhoeddwyd ar 4 Gorffennaf 2025 yn cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael gorfodol ar dir, hawliau presennol dros dir, a hawliau dros dir drwy greu hawliau newydd drosto, fel y disgrifir yn Atodlen 1 ac yn fwy penodol yn y Gorchymyn a'r Llyfr Gorchwyl sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn.

**Crynodeb o'r Datblygiad Arfaethedig**

Mae Fferm Wynt Alltraeth Mona (y Datblygiad Arfaethedig) yn fferm wynt ar y môr sydd wedi'i lleoli oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys hyd at 96 tyrbin gwynt a seilwaith cysylltiedig ar y tir ac ar y môr. Ar ei bwynt agosaf, bydd ardal aráe y Datblygiad Arfaethedig tua 29km oddi wrth arfordir Gogledd Cymru.

Bydd coridor y ceblau allforio ar y môr tua 46km o hyd a bydd y coridor ceblau allforio ar y tir (gan gynnwys coridor ceblau 400kV) tua 16km o hyd. Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cysylltu â'r grid cenedlaethol yn Is-orsaf National Grid Bodelwyddan, i'r de o'r Rhyl, gogledd Cymru. Mae'r is-orsaf ar y tir wedi ei lleoli yn union i'r de o is-orsaf National Grid Bodelwyddan a llinellau uwchben 400kV Bodelwyddan i Bentir.

Dyma brif elfennau'r Datblygiad Arfaethedig:

- Tyrbinau gwynt ar y môr
- Sylfeini (ar gyfer tyrbinau gwynt a phlatfformau is-orsaf ar y môr
- Gosod deunyddiau i atal erydu
- Ceblau rhyng-aráe sy'n cysylltu'r tyrbinau gwynt unigol â'r platfformau is-orsaf ar y môr
- Compowndiau adeiladu dros dro, gan gynnwys mannau storio
- Ffyrdd mynediad parhaol a rhai dros dro
- System trawsyrru Cerrynt Eiledol Foltedd Uchel (HVAC), gan gynnwys:
  - Platfformau is-orsaf ar y môr
  - Cebl(au) rhyng-gysylltu ar y môr
  - Cebl(au) allforio ar y môr –
  - Cebl 400 kV Mona i gysylltu â'r grid
  - Cebl(au) allforio ar y tir
  - Cysylltiadau ag Is-orsaf y National Grid ym Modelwyddan
  - Is-orsaf ar y tir.

Mae copi o'r Gorchymyn fel y'i gwnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, ynghyd â chopïau o lythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ac adroddiad yr Awdurdod Archwilio ar ei argymhellion, ar gael i'w gweld ar-lein ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-mona/

yn ogystal ag ar wefan Prosiect Gwynt Alltraeth Mona:

https://www.morganandmona.com/cym/

Mae copi caled o'r Gorchymyn wedi'i adneuo yn:

| **Lleoliadau Adneuo** | **Amseroedd Agor*** |
|---|---|
| Llyfrgell Amlwch, Lôn Parys, Amlwch, Ynys Môn LL68 9EA | Mawrth: 9.30-12.30pm a 2-5pm, Mercher, Gwener, Sadwrn: 9.30-12.30pm, Iau: 2-7pm |

| | |
|---|---|
| Llyfrgell Gyhoeddus Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT | Llun, Mawrth, Iau: 9:30-6pm, Mercher, Gwener: 9:30-5pm, Sadwrn: 9:30-1pm |
| Llyfrgell Henry Bloom Noble, 8 Duke Street, Douglas, Ynys Manaw IM1 2AY | Llun-Mercher a Gwener: 8.30-5pm, Iau: 10-7pm, Sadwrn: 9-4pm |
| Llyfrgell Llandudno, Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP | Llun-Mercher a Gwener: 9-5.30pm, Iau: 10-7pm, Sadwrn: 9:30-3pm |
| Llyfrgell y Dref – Ramsey, Parliament Square, Ramsey, Ynys Manaw IM8 1RT | Llun-Iau a Sadwrn: 9-4:30pm, Gwener: 9-4pm |
| Llyfrgell, Amgueddfa a Chanolfan Gelfyddydau y Rhyl, Stryd yr Eglwys, y Rhyl LL18 3AA | Llun: Ar gau, Mawrth: 10-5pm, Mercher: 12-5pm, Iau: 10-5pm, Gwener: 10-5pm, Sadwrn: 09:30-12.30pm |

**Mae amseroedd agor y sefydliadau hyn yn dibynnu arnyn nhw ac yn cael eu rheoli ganddynt, ac mae'n bosibl y byddant yn newid.*

Mae copïau caled ar gael hefyd ar gais drwy gysylltu â:

Post: FREEPOST MONA

E-bost: monaconsents@m3wind.com

Ni chaiff person a dramgwyddir gan y Gorchymyn ond herio'r Gorchymyn yn unol ag adran 118 o Ddeddf Cynllunio 2008, sy'n pennu bod yn rhaid i unrhyw achos gael ei ddwyn drwy ffeilio ffurflen hawlio adolygiad barnwrol yn ystod y cyfnod o 6 wythnos; gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y cyhoeddwyd y Gorchymyn (neu, os yn ddiweddarach, y diwrnod y cyhoeddir y datganiad o'r rhesymau dros wneud y Gorchymyn).

Unwaith y daw darpariaeth y Gorchymyn, sy'n awdurdodi caffael drwy orfodaeth, i rym, caiff Mona Offshore Wind Limited gaffael unrhyw ran o'r tir (gan gynnwys unrhyw hawliau presennol a / neu hawliau newydd) a ddisgrifir yn Atodlen 1 isod drwy weithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981. Mae datganiad ar effaith Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf honno wedi'i nodi yn Atodlen 2 isod.

Gwahoddir unrhyw un a fyddai â hawl i hawlio digollediad pe bai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei weithredu i ddarparu gwybodaeth am enw, cyfeiriad a buddiant yr unigolyn mewn tir i Mona Offshore Wind Limited, gan ddefnyddio'r ffurflen ragnodedig.

Mae'r ffurflen ragnodedig wedi'i nodi yn Atodlen 3 a dylid ei dychwelyd i Mona Offshore Wind Limited drwy'r cyfeiriad canlynol:

Post: FREEPOST MONA

E-bost: monaconsents@m3wind.com

## ATODLEN 1

## DISGRIFIAD O'R TIR, HAWLIAU PRESENNOL A'R HAWLIAU NEWYDD

Dangosir tir y Gorchymyn (fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 (Dehongliad) o'r Gorchymyn) ar y Cynllun Tir (ar y tir) (fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) ac fe'i disgrifir yn y Llyfr Gorchwyl (fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) yn ardaloedd awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych.

Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â chymaint o dir y Gorchymyn ag a ddangosir ar y Cynllun Tir (ar y tir) wedi'i liwio'n binc (tir sy'n amodol ar feddiannu a defnyddio dros dro a chaffael rhydd-ddaliad), glas (tir sy'n amodol ar feddiannu a defnyddio dros dro a chaffael hawliau parhaol), melyn (tir sy'n amodol ar feddiannu a defnyddio dros dro) a gwyrdd (tir sy'n amodol ar feddiannu a defnyddio a chaffael hawliau parhaol dros dro - gwella gwrychoedd).

O dan y pwerau a roddwyd yn y Gorchymyn:

Caiff Mona Offshore Wind Limited gaffael yn orfodol gymaint o dir y Gorchymyn ag a bennir gan Erthygl 20 (Caffael tir yn orfodol) y Gorchymyn ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig (fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) neu fel sy'n gysylltiedig â'r datblygiad awdurdodedig, neu sy'n ofynnol i'w hwyluso.

Caiff Mona Offshore Wind Limited gaffael yn ormodol unrhyw hawliau dros dir y Gorchymyn drwy eu creu yn ogystal â thrwy gaffael hawliau sydd eisoes mewn bodolaeth, a gosod cyfyngiadau sy'n effeithio ar ran o dir y Gorchymyn, fel yr awdurdodir gan Erthygl 22 (Caffael gorfodol ar hawliau) o'r Gorchymyn.

Caiff Mona Offshore Wind Limited atal neu ddiddymu hawliau preifat ar dir yn unol ag Erthygl 24 (Hawliau preifat) o'r Gorchymyn.

Caiff Mona Offshore Wind Limited gaffael yn orfodol gymaint o isbridd tir y Gorchymyn ag a bennir gan Erthygl 26 (Caffael isbridd yn unig) o'r Gorchymyn ag sy'n ofynnol at unrhyw ddiben y caniateir caffael y tir hwnnw ar ei gyfer o dan y ddarpariaeth honno yn hytrach na chaffael y tir cyfan.

Mae hawliau a phwerau eraill yn y Gorchymyn a allai, os cânt eu harfer, ymyrryd â hawliau eiddo a buddiannau preifat yn cynnwys:

- Erthygl 10 (Gwaith stryd)
- Erthygl 12 (Cyfyngiad dros dro ar ddefnyddio strydoedd)
- Erthygl 11 (Cau hawliau tramwy cyhoeddus dros dro)
- Erthygl 16 (Gollwng dŵr)
- Erthygl 18 (Gwaith amddiffyn i adeiladau)
- Erthygl 17 (Hawl i arolygu ac ymchwilio i'r tir)
- Erthygl 28 (Hawliau o dan strydoedd neu uwchben strydoedd)
- Erthygl 29 (Defnyddio tir dros dro i gyflawni'r prosiect awdurdodedig)
- Erthygl 30 (Defnyddio tir dros dro i gynnal a chadw'r prosiect awdurdodedig)
- Erthygl 31 (Ymgymerwyr statudol)
- Erthygl 36 (Cwympo neu docio coed a thynnu gwrychoedd)

Mae caffael yn orfodol ar dir, ar hawliau presennol dros dir ac ar hawliau dros dir drwy greu hawliau newydd ynghyd â meddiannu a defnyddio tir dros dro a awdurdodir gan y Gorchymyn yn dod o fewn y categorïau canlynol, ac mae rhagor o fanylder am hyn yn y Llyfr Gorchwyl.

| Dosbarth | Lliw ar y Cynlluniau Tir | Disgrifiad o'r Dosbarth |
|---|---|---|
| Caffael Rhydd-ddaliad | Pinc | Caffael yn orfodol yr holl fuddiannau a hawliau ar dir (gan gynnwys, yn ôl yr angen, isbridd, tir wyneb) |
| Caffael hawliau newydd a gosod cyfyngiadau a chaffael hawliau newydd | Glas | Creu a chaffael yn orfodol hawliau newydd (gan gynnwys, |

| | | |
|---|---|---|
| | | lle bo angen, hawl i osod cyfamodau cyfyngol) |
| Meddiant dros dro | Melyn | Meddiannu a defnyddio tir dros dro, yn bennaf yn ystod y gwaith adeiladu am hyd at 12 mis ar ôl cwblhau'r gwaith perthnasol |
| Hawliau i Wella Gwrychoedd | Gwyrdd | Creu a chaffael yn orfodol hawliau newydd (gan gynnwys, lle bo angen, hawl i osod cyfamodau cyfyngol) ar gyfer gwella a chynnal a chadw gwrychoedd |

## ATODLEN 2

## DATGANIAD AR EFFAITH RHANNAU 2 A 3 O DDEDDF PRYNU GORFODOL (DATGANIADAU BREINIO) 1981

**Pŵer i weithredu datganiad breinio cyffredinol**

1. Unwaith y daw darpariaethau Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Mona 2025, sy'n awdurdodi caffael drwy orfodaeth, i rym, caiff Mona Offshore Wind Limited ("**yr Awdurdod Caffael**" o hyn ymlaen) gaffael unrhyw ran o'r tir (gan gynnwys unrhyw hawliau presennol a / neu hawliau newydd) a ddisgrifir yn Atodlen 1 uchod drwy weithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ("**y Ddeddf**"). Effaith hyn, yn ddarostyngedig i baragraffau 3 a 5 isod, yw breinio'r tir yn yr Awdurdod Caffael ar ddiwedd y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff 2 isod.

**Hysbysiadau ynghylch datganiad breinio cyffredinol**

2. Cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Awdurdod Caffael weithredu datganiad breinio cyffredinol, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad ohono i bob meddiannydd unrhyw un o'r tir a bennir yn y datganiad (ac eithrio tir lle ceir un o'r tenantiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 4) ac i bob person sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am y tir yn unol â'r gwahoddiad sydd wedi'i gynnwys yr Hysbysiad hwn sy'n Cadarnhau'r Pryniant Gorfodol a gafodd ei gyhoeddi a'i gyflwyno o dan adran 134 Deddf Cynllunio 2008. Pan fydd y broses o gyflwyno hysbysiadau o'r datganiad breinio cyffredinol wedi'i chwblhau, bydd cyfnod a bennir yn y datganiad, o ddim llai na thri mis, yn dechrau rhedeg. Ar y diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod hwn, bydd y tir a ddisgrifir yn y datganiad, yn amodol ar yr hyn a ddywedir ym mharagraffau 3 a 5, yn breinio yn yr Awdurdod Caffael ynghyd â'r hawl i fynd ar y tir a chymryd meddiant ohono. Bydd gan bob person y gallai'r Awdurdod Caffael fod wedi cyflwyno hysbysiad iddo mewn perthynas â'i fuddiant yn y tir (ac eithrio tenant o dan un o'r tenantiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 4) hawl i hawlio iawndal am gaffael ei fuddiant yn y tir, gyda llog ar yr iawndal o'r dyddiad breinio ymlaen.

3. Y "dyddiad breinio" ar gyfer unrhyw dir a bennir yn y datganiad fydd y diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod, oni chyflwynir gwrth-hysbysiad o dan Atodlen A1 i'r Ddeddf o fewn y cyfnod hwnnw. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y dyddiad breinio ar gyfer y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad yn cael ei bennu yn unol ag Atodlen A1.

**Addasiadau mewn perthynas â rhai tenantiaethau**

4. Yn achos tenantiaethau penodol, mae'r sefyllfa a nodir uchod yn ddarostyngedig i addasiadau. Mae'r addasiadau'n berthnasol pan fo'r denantiaeth naill ai'n "denantiaeth fach", hynny yw, tenantiaeth am flwyddyn neu denantiaeth flynyddol neu fuddiant llai, neu'n "denantiaeth hir sydd ar fin dod i ben". Mae'r ymadrodd olaf yn golygu tenantiaeth a roddir ar gyfer buddiant sy'n fwy na thenantiaeth fach ond sydd, ar y dyddiad breinio, â chyfnod nad yw'n fwy na'r cyfnod a bennir yn y datganiad i'r diben hwn (sy'n gorfod bod yn fwy na blwyddyn). Wrth gyfrifo pa mor hir y mae tenantiaeth wedi parhau i redeg, pan fydd unrhyw opsiwn i adnewyddu neu derfynu'r denantiaeth

ar gael i'r naill barti neu'r llall, cymerir y bydd y landlord yn manteisio ar bob cyfle sydd ar gael iddo derfynu'r denantiaeth tra bydd y tenant yn manteisio ar bob cyfle i gadw neu adnewyddu ei fuddiant.

5. Yr addasiadau yw na chaiff yr Awdurdod Caffael arfer yr hawl mynediad y cyfeirir ato ym mharagraff 2 mewn perthynas â thir sy'n ddarostyngedig i denantiaeth a ddisgrifir ym mharagraff 4, oni bai ei fod yn cyflwyno hysbysiad yn gyntaf i'w drin mewn perthynas â'r denantiaeth ac yna'n cyflwyno hysbysiad o'i fwriad i fynd i mewn a chymryd meddiant ar ôl y cyfnod (dim llai na thri mis o gyflwyno'r hysbysiad) a bennir yn yr hysbysiad. Bydd yr hawl mynediad yn arferadwy ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Bydd breinio'r tir yn amodol ar y denantiaeth tan ddiwedd y cyfnod hwnnw, neu hyd nes y daw'r denantiaeth i ben, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

## ATODLEN 3

## FFURFLEN AR GYFER RHOI GWYBODAETH AM ORCHYMYN FFERM WYNT ALLTRAETH MONA 2025

At: Mona Offshore Wind Limited
FREEPOST MONA

[Yr wyf i] [Yr ydym ni] yn [unigolyn] [unigolion] a fyddai, pe cai datganiad breinio cyffredinol ei weithredu o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 mewn perthynas â thir sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn prynu gorfodol y cyfeirir ato uchod ac nad oes hysbysiad trafod wedi'i roi mewn cysylltiad ag ef, yn cael hawlio digollediad mewn perthynas [â'r holl dir hwnnw] [â rhan o'r tir hwnnw], yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi, yn unol â darpariaethau adran 134(7)(cza)(ii) o Ddeddf Cynllunio 2008.

[Yr wyf i'n]/[Yr ydym ni'n] credu bod gennyf/gennym hawl i gael hysbysiad os bydd pwerau dros dro yn cael eu harfer dros y tir y cyfeirir ato ym mhennawd yr hysbysiad hwn.

1. Enw a chyfeiriad yr hysbysydd(hysbyswyr) *(i)*

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

2. Tir lle mae'r hysbysydd(hysbyswyr) yn dal buddiant *(ii)*

……………………………………………………………………………………………………………

...…………………………………………………………………………………………………………

3. Natur y buddiant *(iii)*
……………………………………………………………………………………………………………

...………………………………………………………………………………………………………..

Llofnod

……………………………………………………………………………………………………………

[Ar ran

......................................................................................................................................…]

Dyddiad ..................................................................................

*(i) Yn achos cyd-fuddiant, rhowch enwau a chyfeiriadau'r holl hysbyswyr.*
*(ii) Dylid disgrifio'r tir yn gryno.*
*(iii) Os yw'r tir yn lesddaliad, dylid nodi'r dyddiad cychwyn a hyd y cyfnod. Os yw'r tir yn ddarostyngedig i forgais neu lyffethair arall, dylid rhoi manylion, e.e. enw'r gymdeithas adeiladu a rhif y rholyn.*